Lliwiau dau dymor!

Gair bach Bethlehem 47

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** – rhif 47- (Rhifyn canol haf 2024)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Pos i chi!

Ydych chi'n adnabod y groten 14 oed o Gwmparc, Y Rhondda, sydd yn y llun ar y chwith? A pham, meddech chi, mae hi'n cael y lle blaenaf yn y rhifyn hwn?
Yr atebion ar dudalen 2

Y GWYNFYDAU

Côr Bethlehem dan arweiniad
Eilir Owen Griffiths

Yng nghapel Minny Street,
Caerdydd
Am 6.30

Nos Sul
Mehefin 30

Os nad ydych chi'n canu, dewch i wrando!

COLLI ANWYLIAID

Ar Fehefin 11, daeth y newydd am golli un o'n haelodau, **David (Dai) Clement, Ffynnon Taf**. Rydyn ni'n anfon ein cofion at ei briod, Kay, a'r merched, Lowri, Luned a Bethan.

"Pensaer oedd Dai a'n gadawodd ac yntau'n 81 mlwydd oed. Yntau a Kay, ei wraig, wedi eu geni a'u magu yn Ystradgynlais gan dderbyn eu haddysg yn Ysgol Maes y Dderwen. Bu'r ddau yn gyd-aelodau yng nghapel Sardis, ble roedd tad Dai yn arweinydd y gân. Roedd Dai yn hoff iawn o gerdd gan ganu'r piano a'r gitâr.
Datblygodd y berthynas rhwng Kay a Dai yn garwriaeth ac yna'r briodas a barodd am bumdeg chwech o flynyddoedd! Bu Dai yn fyfyriwr yng Ngholeg Pensaerniol Caerdydd gan ddechrau ar ei swydd gyntaf yn Aberhonddu. Swydd yng Nghaerdydd a ddaeth nesa gyda'r ddau yn ymgartrefu yn Radur ar ôl priodi.
Ganed tair o ferched i Kay a Dai. Lowri yn gyntaf, yna Luned a Bethan. Mae Kay a Dai yn fam-gu ac yn dat-cu i saith: ***Mabon a Trystan; Lea, Betsan ac Esther; ac Evan a Daniel****."*

John Ifans

■ ■ ■

Collwyd un arall fu'n aelod yn ein plith, **John Williams, Pentyrch**, ragflaenwyd gan ei briod Gwyneth y llynedd. Un o Gymry Llundain oedd John ond a symudodd i Bentyrch hanner can mlynedd yn ôl. Bu'n weithgar iawn yn y gymuned, yn arbennig felly fel trefnydd a thrysorydd sawl ymgyrch codi arian at ein huchel-wyliau. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r plant, Hywel, Gareth a Sian, a'u teuluoedd ac yn cofio atyn nhw yn eu colled.

Wnaethoch chi ei hadnabod hi?

Do, wrth gwrs! Dyma Mrs Ann Williams, Yr Eglwys Newydd, ein haelod selog a ffyddlon, sydd ar drothwy dathliad arbennig iawn.



Fel Ann Hamer (a chwaer fawr i Dennis) byddai pobl Cwmparc wedi adnabod Mrs Ann Williams. Mae ganddi bellach 5 o orwyrion. Yn y llun chwith uchod, mae hi'n cofleidio Emilia, ei gor-wyres gyntaf yn 2008. Yn y llun ar y dde, dacw Ann yn cymryd rhan yn un o oedfaon Bethlehem.

Bydd ei phen-blwydd yn 100 oed yn digwydd ar Orffennaf 4ydd. Pen-blwydd hapus iawn i chi, Mrs Williams, oddi wrth bawb o'ch cyd-aelodau ym Methlehem.

Suliau'r Haf ym Methlehem

(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)

Mehefin:

23ain Mehefin – Oedfa dan ofal Huw Lloyd

30ain Mehefin – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen

[Hefyd 30ain Mehefin (6.30 p.m.) – Cyflwyniad o'r "Gwynfydau" yng Nghapel Minny Street, Caerdydd]

Gorffennaf:

7fed Gorffennaf – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

14eg Gorffennaf – Oedfa dan ofal Sian Meinir

21ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11.00 a.m.)

28ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth

Awst:

4ydd Awst – Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol

11eg Awst - Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth

18fed Awst - Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11.00 a.m.)

25ain Awst - Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth

Medi:

1af Medi **-** Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

RHAGOR O NEWYDDION BETHLEHEM - 1

Coffi a Chrefft gydag Anthony

Ar y trydydd bore Iau o bob mis, bellach, mae yn griw yn awchu am orig o arweiniad gan ein 'guru' o arlunydd, Anthony Evans.

Fe awgrymodd ein "harlunydd preswyl" fod y mynychwyr yn creu casgliad o drysorau neu atgofion personol mewn ffrâm – tebyg i'r rhai oedd ganddo yn ei sgwrs gyntaf.

Mae'r prysurdeb misol wedi sbarduno cryn weithgaredd.
Fel y gwelwch isod, mae'r potyn glud a'r cardiau bach ar waith, a chynghorion niferus y Brawd Evans yn gymorth i fireinio'r casgliadau.

RHAGOR O NEWYDDION BETHLEHEM - 2

Dathlu dwbl! Da iawn ti, Aaron Owen Griffiths, ar gael dy ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn dan 14 oed Clwb Rygbi Pentyrch. A daeth buddugoliaeth arall i'r teulu pan enillodd Côr Ifor Bach, dan arweiniad Eilir, gystadleuaeth Côr Cymru 2024 ar S4C.

Mae ein diolch i Kitty Edwards Owen (chwith uchod) am rai o'r danteithion gafwyd yn y festri wedi ambell oedfa – fel rhan o'i heriau dan gynllun Gwobr Dug Caeredin. Mae tair lefel i'r Wobr ac mae Kitty ar hyn o bryd yn cwblhau'r ail lefel, sef yr un Arian. Treuliodd benwythnos yn cysgu allan y Mhenrhyn Gwyr, tra bod gwirfoddoli i goginio teisennau i'r te Capel dipyn haws, ond yn dal i fod yn werth 40% o'r rhaglen. (A taid Creigiau oedd un o'r rhai cyntaf i flasu'r cacennau!)

*Rydyn ni'n cydymdeimlo â **Rhys Powys** sydd wedi colli ei gefnder, Aled Tudur Evans, Caerdydd. Tra'n gymharol ifanc, caethiwyd Aled gan salwch blin a bu Rhys, Betsan, Rhiannon a'r diweddar Barchedig R. Alun yn hynod eu gofal drosto.*

■ ■ ■

*Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyn-weinidog, **Gareth Rowlands**, a'r teulu, wedi i Gareth golli ei dad yn ddiweddar.*

"Bwa"

(Soned Fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Y Bala 1967)

Ym Mhontypridd gweli fwa cain
Fel enfys unlliw'n asio'r glannau llwm
A lleidiog ddyfroedd Taf yn floesg eu sain
Wrth alarnadu ar eu rhawd drwy'r cwm
O ddeutu'r afon, prin y gweli mwy
Y llannerch werdd na llwyn na choedlan ir,
Lledaenodd pla'r peilonau dros y plwy
A llysoedd hap a dawns fel brech ar dir;
Mae'r bwa'n aros yn y cerrig llwyd
Gan ddwyn ar gof yr enfys yn y glaw,
A'r adeiladydd â'i anorthrech nwyd
Yn ennyn gobaith â deheurwydd llaw
Wrth lunio patrwm yr addewid ddrud
Yn gywrain gelfydd yn y meini mud.

Y diweddar Barchedig Gwilym Morris, Gwaelod-y-Garth

- ***Gwobr Eisteddfod RhCT***

Bethlehem sydd wedi noddi yr ail wobr o £200 i'r Parti Llefaru eleni. Roedd y wobr gyntaf eisoes wedi ei chynnig, felly bu'n rhaid setlo am yr ail. Bydd y cyfraniad yn cael ei gyfrif ar ran pwyllgor apêl Ffynnon Taf.

- ***Anfon ein cofion***

Bob Sul Cymun mae Delwyn yn cyfeirio at y rhai sy'n methu mynychu oherwydd gwaeledd – ac rydyn ni'n anfon ein cofion cynhesaf atyn nhw. Yn eu plith mae Mrs Betty Williams a Ken Evans. Y ddau heb fod yn dda eu hiechyd ers peth amser bellach. Braf oedd gweld Delyth Evans, Y Barri, yn ôl yn ein plith ar ôl ei thriniaeth a hefyd Ann Sion, ar ôl ei thriniaeth hithau.

- ***Llongyfarchiadau i'r canlynol:***

Hannah Roberts, sydd wedi ychwanegu at ei chasgliad o brif wobrau drwy ennill cadair yn Llangadog – a dod yn ail hefyd!

Ifan Roberts ar ennill y Tlws Rhyddiaith yn Eisteddfod Môn, Bro Alaw.

Sioned Wyn am ei champ yn gwneud taith noddedig dros gyfnod o fis yng Nghaerdydd – taith oedd yn cyfateb i'r 150km o lwybr ffoaduriaid o Libanus i Rafah, yn Gaza. Hwyrach eich bod eisoes wedi ei noddi – os na, dyma'r ddolen*:*
https://medicalaidforpalestinians.enthuse.com/pf/sioned-wyn

Brenhines y Cymoedd

EWCH YR AIL FILLTIR!

Delwyn Sion

Dwi'n siŵr bydd y rhan fwyaf ohonoch yn ymweld â Phontypridd yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, ond pe bai awydd arnoch i fynd ryw filltir neu ddwy ymhellach i …Aberdâr er enghraifft, wel, dyma gwpwl o leoliadau sy' werth ymweld â nhw.

Os yw hi'n braf ewch i'r Parc ar y Gadlys, yn y fan honno ma' Cerrig yr Orsedd, llyn rhwyfo hyfryd, a chaffi bach os oes awydd hufen iâ a diod oer arnoch chi. Heb fod ymhell, ym Mount Pleasant Street ym mhentref Trecynon, mae capel anghydffurfiol hyna'r cwm, sef yr enwog Hen Dŷ Cwrdd, y Capel Undodaidd oedd yn gartref i rai o fawrion y genedl, yn eu plith y radical Tomos Glyn Cothi, y gŵr oedd yn cefnogi'r Chwyldro Ffrengig, ac a gyfieithodd y "Marseillaise" i'r Gymraeg. (Sdim angen dweud iddo dderbyn tipyn o sylw gan heddlu cudd ei gyfnod!!) a'r bardd a'r heddychwr D. Jacob Davies, gweinidog a fu'n frwd ei gefnogaeth i ysgol Gymraeg gynta'r cwm yng Nghwmdâr, a hynny nôl ym 1949.

O Drecynon ewch lawr i gyfeiriad y dref, gan barcio ar safle hen bwll y Gadlys, ac oddi yno draw at Eglwys Sant Ioan, a adeiladwyd ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif. Fe bregethodd John Wesley yno ddwywaith ym 1749, ond fe ddirywiodd yr achos wedi hynny gyda dyfodiad y chwyldro diwydiannol, ond erbyn heddiw mae'r Eglwys yn ôl ar ei gorau.



Alaw Goch

Anelu i gyfeiriad yr afon Dâr wedyn, mond rhyw ugain llath, er mwyn gweld Capel Siloa (fy hen gapel i, digwydd bod, ond yn anffodus erbyn hyn wedi gorfod cau ei ddrysau.) Fe'i adeiladwyd ym 1844, a bu'n gadarnle i Gymreictod a radicaliaeth y cwm. Bu cyfarfod yno dan lywyddiaeth Alaw Goch i wrthwynebu casgliadau y Llyfrau Gleision, bu Niclas y Glais yn areithio yno, ac roedd yna gysylltiad â'r aelod seneddol Llafur cyntaf yng Nghymru, Keir Hardie. Ond y syndod mwyaf i'r rhan fwyaf o bobol yw'r ffaith bod 'na gyfarfod wedi'i gynnal yno i ffarwelio â'r rhai oedd yn ffarwelio ar y Mimosa i Batagonia. Pam? Am fod traean o'r rhai a aeth ar y daith enwog honno i'r Wladfa yn dod o Gwm Cynon! Os y'chi moyn mwy o'r hanes bwriwch mewn i'r llyfrgell drws nesaf, fe gewch groeso twymgalon, cyn croesi'r sgwâr am "frothy coffee" yn y caffi gyferbyn.

Caradog

Lan y rhiw wedyn, yn groes i'r system draffig unffordd (a derbyn bo chi'n dal i gerdded a heb ddychwelyd i'ch car!) i Sgwâr Fictoria ac at gerflun urddasol mab enwoca'r dref - Caradog. Ef oedd arweinydd y Côr Mawr, côr o ryw 450 o ddynion a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth gorawl y Palas Grisial yn Llundain, nid unwaith ond dwywaith, ym 1872 a 1873. Tipyn o gamp, a buddugoliaethau arweiniodd at y gred taw Cymru oedd "Gwlad y Gân". Fe gafodd ei eni yn nhafarn fach y Rose and Crown yn Nhrecynon, a bu'n aelod yn yr Hen Dŷ Cwrdd tra'n gweithio fel gof yng ngwaith haearn Llwydcoed, ond fel arweinydd y Côr Mawr y bydd yn cael ei gofio, ac mae'n amhosib teithio trwy "sweet" 'Berdâr heb sylwi arno.

Ma' mwy 'to i hanes Aberdâr wrth gwrs, cartref yr Eisteddfod fodern gyntaf, a'r Gymanfa Ganu gyntaf dan arweiniad Ieuan Gwyllt, ond gobeithio bod yr ychydig hanes yma yn ddigon i'ch temtio i fynd yr ail filltir lan y cwm yn ystod tymor yr Eisteddfod i ymweld â Brenhines y Cymoedd.

Ar ein stepen drws – gyda noson gyda Delwyn ac oedfa yn Efail Isaf - dyma fanylion Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yr Annibynwyr - Gorffennaf 11 – 13.

Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd

DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

1.30 **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

2.00 Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (*y Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *

3.00 Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

4.00 **Cyfarfod Heddwch ***
Parchg Ron Williams: 'Llais o Fethlehem'
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

5.30 Egwyl

6.00 Swper

7.30 **Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a chyfeillion ***

DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

9.30 Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

10.00 **Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

11.00 Te/coffi

11.30 **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Defosiwn: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

12.30 Cinio ac ymadael

Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

9.30 **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

10.00 Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

11.00 Te/coffi

11.30 Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

12.00 Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd *
'Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325'
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams

1.00 Cinio

2.00 **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Penderfyniadau:
Penderfyniad 1: Swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol
Adroddiad y Trysorydd
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Cydnabod gwasanaeth y cyn Ysgrifennydd Gweinyddol, Miss E. Ann Williams a'r cyn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, Mr Alun Lenny
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

3.30 Te/coffi

4.00 **Cyfarfod Hanes ***
'Cofio Wncwl Bill' sgwrs gan Richard Huws ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

5.00 Egwyl

5.30 Swper

7.30 **OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg Jeff Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen: Sian Meinir
Gweddïo: Parchg Emyr Gwyn Evans
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

“Lost Boys and Fairies”

Bethlehem ar y Bocs

Tybed a fydd y rheini ohonoch sydd wedi dilyn y ddrama gyfres (o dair rhaglen) “Lost Boys and Fairies”, ar deledu’r BBC, o waith Daf James, wedi sylwi ar rhywle cyfarwydd yn y rhaglen gyntaf o’r tair?

Ie, da’chi’n iawn, Bethlehem, Gwaelod-y-garth, oedd y lleoliad ar gyfer angladd mam Gabriel (Sion Daniel Young), ac fe glywyd canu brwd yn ystod y gwasanaeth yn ogystal, fel sy’n gweddu i’n haddoldy ni!

Yn ystod mis Ebrill 2023 y ffilmiwyd y rhannau rheini a ymddangosodd yn y rhaglen, a dyma ddau lun a dynnwyd yn ystod y gwaith paratoi – yn un ohonynt (uchod) fe welwch Daf James yn sgwrsio gyda’r actorion cyn dechrau ar y ffilmio!

Mae’r cynhyrchiad, sy’n ymwneud a chais (a llwyddiant) pâr hoyw i fabwysiadau plentyn, ac sydd wedi ei seilio ar brofiadau’r awdur ei hunan a’i gymar Hywel, wedi derbyn adolygiadau canmoladwy yn y wasg ar draws gwledydd Prydain.

Saith Llawr Y Mynydd Bychan

"*Doors opening*... drysau yn agor."

Rhys Powys

Mae chwech 'lifft' yma i gyd. Dau "At ddefnydd Staff a Staff Theatr yn unig", felly mae pedwar lifft i ddewis ohonyn nhw. Dau sy'n gweithio. Bob nos bydd dwsin a mwy o bobol yn ymgasglu yn y '*concourse*' yn gwasgu botymau a syllu'n obeithiol ar y rhifau uwch y drysau. Rhifau sydd fel petaent wedi rhewi. Dyma ddechre'r 'oriau ymweld' ac mae'r ddrama yn debyg bob dydd.

Ping! "*Doors opening*… drysau yn agor."

Bydd y dwsin yn ymlwybro'n obeithiol tua'r drws porffor sy' ar fin llithro ar agor… a chanfod fod y lifft yn hollol, hollol llawn. Aeth hwn lawr i berfeddion y *Lower Ground Floor* funudau ynghynt a'r un criw pryderus, llwyd, di-obaith sydd yma, ar eu ffordd nôl lan i wardiau'r ysbyty. Does neb am ddod allan yma, wrth gwrs.

"You can squeeze in if you like, love." Syllaf ar y wynebau gwelwon. Clywaf y peswch torcalonnus sy'n dod o rywle yng nghefn y lifft.

"No. It's alright. I'll wait for the next one."

"*Doors closing*… drysau'n cau." Ac i ffwrdd â nhw.

Ymlwybro a syllu. Syllu ac ymlwybro.

Rhywle, lawr y coridor, mae *Hospital Radio* yn chwarae "*Freebird*" gan Lynyrd Skynyrd. Mae'r gân yn naw munud o hyd…

"Gallen ni gerdded?" "Saith llawr?" "Falle ddim." Tawelwch.

Ping! "*Doors opening*… drysau yn agor."

Ymlwybro. Neb yn rhuthro. Mae rhyw ddemocratiaeth ryfedd ar waith yma a phawb yn ymwybodol o bwy sydd wedi bod yn aros hiraf a phwy sydd newydd gyrraedd trwy'r glaw o'r maes parcio. "Y rhai sychaf a fyddant flaenaf", felly.

Y lifft yn gwagio. Ymwelwyr gofidus a staff 'shifft y dydd' yn flinedig frysio am adref, yn chwilio am signal ffôn… *"Yes, I'm leaving now, love…"*

Y lifft yn llenwi'n syth o'u hôl. Llawn dop. Ymwthio tua'r cefn. Staff y 'shifft nos' ar eu ffordd i'r gwaith, â golwg wedi blino'n barod.

Pam fod drych ar wal gefn pob lifft? Dwi'n edrych wedi blino hefyd.

"*Room for a small one?*" Cnoi tafod. Osgoi'r demtasiwn i herio'r hunan-ddisgrifiad. "*Small one?!*" Pawb yn gwthio ymhellach tua'r cefn. Dwi'n dweud dim.

Bysedd yn gwasgu botymau. Pob llawr o un i saith. Mae hon yn mynd i fod yn daith hir.

"*Doors closing*… drysau'n cau."

"*Doors opening*… drysau'n agor." Dim symudiad.

"*I think you're standing too close to the thingy, love*." Pawb yn symud nôl. Erbyn hyn mae fy nhrwyn yn gwasgu yn erbyn y drych.

"*Doors closing*… drysau'n cau."

Ffwrdd â ni… am i lawr!

"*Doors opening*… drysau'n agor"… i ddarlun o set Doctor Who. Coridor hir a thywyll â phibau metel a weiars a '*strip-lighting*' gwyrdd. Dynion main yn gwthio trolis amheus yn y pellter. Felly dyma *Lower Ground Floor*! Dim rhyfedd fod golwg mor ofidus ar bawb sydd wedi bod y ffordd hon o'r blaen!

"*Doors closing*… drysau'n cau." Symud.. lan tro hyn.

"*Doors opening*… drysau'n agor." Deja vu! Y '*concourse*', wrth gwrs - ond ni sydd tu fewn i'r lifft y tro hwn yn syllu'n fuddugoliaethus ar y trueiniaid gwlyb a'u hwynebau gobeithiol. Neb yn symud.

"Room for a small one?" "Don't think so!"

"*Doors closing*… drysau'n cau."

A dyna fel y mae hi, saith o weithiau. Stopio ar bob un llawr. Staff, cleifion ac ymwelwyr, iwnifforms glas, gwyrdd, coch, mewn a mas, trolis a chadeiriau olwyn, trolis bwyd a throlis bins, wynebau pryderus, wynebau cefnogol, "*excuse me loves*" a thawelwch…

"*Doors opening*… drysau'n agor." Llawr saith. Gwenu. Ry'n ni yma i godi calon, ac i werthfawrogi'r gofal a'r cariad ry'n ni wedi'i brofi yma, ddydd ar ôl dydd, gan deulu a staff gofalgar ward B7.

"Dwi'n credu'r awn ni i lawr y grisiau pan ddaw amser mynd adre!"

"*Doors closing*… drysau'n cau".

Y lifft yn mynd nôl lawr i berfeddion yr adeilad. Mae *"I'm as free as a bird now…"* yn dal i chwarae ac atseinio yn rhywle yn y pydew dwfn sy' tu ôl i ni erbyn hyn.

Fel troednodyn i erthygl Rhys Powys, rydyn ni'n falch o ddeall fod ei fam, Rhiannon Evans, Yr Eglwys Newydd, bellach yn gwella ar ôl cyfnod o driniaeth a gofal yn yr ysbyty.
Anfonwn ein cofion cynhesaf o Fethlehem atat ti, Rhiannon.

Dolenni i'r Oedfaon

Wedi colli oedfa? Diolch i Wyn Jones a'i ddirprwyon ar y camera, mae'r oedfaon isod ar gael i'w gwylio eto. Gallwch hefyd gyrchu oedfaon hyd at 2020 drwy fynd ar wefan Bethlehem - www.bethlehem.cymru. (Mae lluniau rhai o'r oedfaon bro hefyd ar dudalennau 15 hyd 17 o'r rhifyn hwn.)

- Cymun dan arweiniad Delwyn 07.04.24 - https://youtu.be/1ngN9LSu28k
- Oedfa dan arweiniad Arwel Ellis Owen 14.04.24 - https://youtu.be/n-e1T9EFlko
- Oedfa aelodau Gogledd Caerdydd 21.04.24 - https://youtu.be/0v7CDLYD5ew
- Oedfa dan arweiniad y Parchedig Robert Owen Griffiths 28.04.24 - https://youtu.be/NtbUrdJgZDI
- Cymun dan arweiniad Delwyn 05.05.24 - https://youtu.be/THIl_CQU43Q
- Oedfa dan arweiniad y Parchedig Jeff Williams 19.05.24 - https://youtu.be/y3gpFwDfsMo

EISTEDDFOD GYNTAF Y GANRIF

Ebrill 28 2024



Oedd, roedd yno ddau feirniad o safon, Rhisiart Arwel a Gaynor Jones, a chyfeilyddes brofiadol, Delyth, ac yn absenoldeb Rhys Powys, rhyw fath o arweinydd, Ifan. Ond pwysicach o lawer, roedd yno gystadleuwyr brwd, enillwyr haeddiannol a chollwyr graslon! Awgrymwyd cynnal eisteddfod o blith athrawon yr Ysgol Sul a dylid diolch i'r trefnyddion am eu holl drefniadau. Roedd hi'n noson hwyliog ac heb fod yn eisteddfod hwyr i'r nos!

Oedd, yr oedd yno gystadlaethau confensiynol ond hefyd rhai ychydig fwy ysmala. Isod, fe welwch rai o'r cystadleuwyr – rhai mawr a mân. Er i rai ennill sawl gwobr, wnawn ni ddim cynnwys eu holl luniau ar bob un cystadleuaeth (er mwyn arbed ychydig ar y blaned!). Felly, dyma nhw, yn gymysg oll i gyd!







Cewch restr llawn o'r canlyniadau ar y dudalen nesaf

CANLYNIADAU EISTEDDFOD BETHLEHEM

Ebrill 28 2024

Rhif	Cystadleuaeth	Enwau'r cystadleuwyr
1	Unawd cynradd	Anni Huws a Gwenni Owen-Griffiths
3	Unawd offerynnol cynradd	Gwenni Owen-Griffiths
4	Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd – oedolion	Margaret Roberts Leah Owen-Griffiths Medi Lloyd
5	Cystadleuaeth dweud jôc (agored i bawb)	Glenys Evans, Medi Lloyd Anni Huws
7	Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd – plant	Alys Huws Pegi Warlow Gwenni Owen-Griffiths
8	Canu emyn – oedolion (unigol neu grŵp)	Sioned, Gwenllïan, Wyn a Heulwen Huw Roberts
9	Llefaru cynradd	Gwenni Owen-Griffiths Pegi Warlow ac Anni Huws
10	Araith ar y pryd - pawb	Anthony Evans Wyn Jones Rhodri Gwynn Jones a Medi Lloyd
11	Canu emyn – plant (unigol neu grŵp)	Alys a Gwenni
12	Darn heb atalnodau – oedolion	Eilir Owen-Griffiths Leah Owen-Griffiths Wyn Jones
14	Dawns i rai dan 18 oed	Gwenni Owen-Griffiths
15	Cystadleuaeth teulu e.e. canu/llefaru/ gwneud triciau/sgets	Anthony, Glenys, Medi, Olwen a'u ffrindie Gwenan ac Awen cydradd â Sioned, Gwenllïan, Wyn a Heulwen

SEIBIANT DROS YR HAF!

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu unwaith eto i'r rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

yn lluniau a geiriau.

A diolch i bawb sy'n ei ddarllen!

(Fe ddaeth cymaint o gyfraniadau i law, rydyn ni wedi cadw dyrnaid bach wrth gefn ar gyfer yr Haf!)

Ymlaciwch tan fis Medi – gan addo anfon cyfraniad ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Med1 15:

tycnau@aol.com

Ein Cymanfaoedd Canu

Rhodri-Gwynn Jones

Yn 1988, cynhaliwyd Cymanfa Ganu ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, ar y 1af o Ebrill, sef ar Ddydd Gwener y Groglith. Ar glawr mewnol y Rhaglen, cyhoeddir yn dalog mai hon oedd "*Y Ganfed Gymanfa Ganu*", ac 'roedd y cyfan "*dan nawdd Eglwysi Annibynnol Groeswen a Bethlehem*".

Byddai'r cyfarfodydd yn dechrau am 10:30 a.m., 2:30 p.m. a 6:00 p.m., a'r Arweinydd Gwadd oedd Alun Guy, Caerdydd. 'Roedd tri cyfeilydd, sef Mrs V. Archard, Groeswen, a Mr Glyndwr Williams a Mr Christopher Powell, Bethlehem.



("…Glyndwr Williams [diweddar ŵr ein aelod hynaf, Ann Williams, a fydd yn dathlu ei 100fed penblwydd ym mis Gorffennaf] *a ddechreuodd ganu'r organ yn y Gymanfa yn 1931 fel "Master Glyndwr Williams" ac sy'n ei chanu o hyd; a Mrs Valmai Archer a ganodd y piano gyntaf yng Nghymanfa 1949 ac sydd nawr yn un o selogion prin y Gymanfa o Gapel y Groes-wen."}*

Fe enwir Swyddogion y Pwyllgor hefyd ar y clawr mewnol, sef Wyn Roberts (Cadeirydd), Christopher Powell (Trysorydd), a Robin Bateman (Ysgrifennydd).

'Roedd y clawr wedi ei gynllunio'n drawiadol a destlus gan Alwyn Harding Jones, gweler y llun. Dwi'n siŵr fod 'na nifer ohonoch yn cofio'r achlysur, ac yn bresennol yn y Gymanfa arbennig yma! Tybed a ydych yn cofio pa emynau a ddewiswyd ac ar ba dôn y'i cenid?

A thybed ydych chi'n cofio bod Rhagair ardderchog wedi ei gynnwys yn y Rhaglen yn olrhain hanes y Gymanfa ers y cychwyn? Unwaith yn rhagor Chris Powell oedd yn gyfrifol am gywain y cyfan at ei gilydd.

'Roedd y dewis emynau ar gyfer y 100fed Gymanfa yn hynod o gelfydd, gan fod yr arlwy ar gyfer y tair oedfa yn tynnu ar yr hyn a gyflwynwyd mewn Cymanfaoedd yn y gorffennol.


1972

YNYS MANAW

Yw Methlehem, ei dirion drem
A dlygodd bawb at ei grud
Ei Seren Ef, a ddaeth a'r nef
A'r Ewyllys Da i ni gyd.

Mae gennau'r hyd, a'i berlau drud
Yn bethau bregus eu braint
Drwy gystudd byr, y thua a'r myrr
Sy'n rhoi serenedd i'w saint.

Dwyfoeg Hedd, heb unrhyw gledd
Ein llywodraethwr wyt ti
Ennoinig Duw, rhyfeddol yw
Y Mab a roddwyd i ni.

Iyor Rees, B.A., B.D.

14

Cynhwyswyd nifer o emynau o raglen 1895, ac yna eraill o raglenni 1914, 1920, 1921, 1932, 1939, 1949, 1951, 1960, 1964, 1972, 1978, 1981, 1982 ac 1985. (sy'n awgrymu bod y Rhaglenni yma ar gael gan rhywun?).

Ac yn naturiol, 'roedd yna ambell i gyffyrddiad arbennig â Bethlehem yn y dewis – o Raglenni 1972 ac 1981, cynhwyswyd dau emyn o waith Ifor Rees:-


1981

Glanaber

Deh D. Elsbeth M. Lewis

Aa yr Eglwys a'i chyadelthas
Lle aae teulu'r ffydd yn un
Yn yaorol aa y Deynas
Gyda'i gilydd yn gytûn.
Aa eu hyder wrth anelu
At y gaap uchela'n bod.
Aa eu dawn i ymdawelu
I'r Penteulu rhoddwn glod.

Gyda'u cyd-ddyheu cariadus
Wrth ymaflyd yn eu gwaith
Fe ddaw grym y gras afradus
I'w tyneru ar eu taith.
Pan ymgangla'r holl aelodau
Ar eu haelwyd ddiwedd dydd
Fe gyfannir eu profiadau
Gan Benteulu aawr eu ffydd.

Ifor Rees

31

'Roedd rhan agoriadol ar gychwyn pob oedfa – tybed a fyddai Iolo Evans yn cofio yr hyn a ddarllenwyd ganddo yn oedfa'r bore? A thasg Bethan Ellis Owen oedd cyflwyno'r darlleniad yn oedfa'r prynhawn. Rhodri Llywelyn oedd a slot yr hwyr yn gwneud yr un modd. Ac 'roedd Llywydd gwahanol ar gyfer y tair oedfa – Bore: Rhiannon Roberts (Betws, Rhydaman); Prynhawn: Parchedig Ifor Rees; Nos: Parchedig T J Davies. Yn ôl y Rhagair:-

"Yn wreiddiol, yr oedd chwe chapel Annibynnol yn yr 'Undeb Canu Cynulleidfaol': Bethlehem (Gwaelod-y-garth), Glandŵr (Glan-llyn), y Watfford (Mynydd Caerffili), Bronllwyn (Pentyrch), Y Winllan (Nantgarw) a'r Groeswen. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, mae'r chwech wedi lleihau i ddau: gadawodd y Watfford yr Undeb cyn y Rhyfel Byd Cyntaf; caewyd Bronllwyn yn 1954; gorffennodd y Winllan yn 1968; a gwerthwyd Glandŵr yn 1971. Erbyn hyn, dim ond Bethlehem a'r Groeswen sy'n parhau o'r chwech gwreiddiol."

Yn anffodus edwino fu hanes pethau wedi'r Ganfed Gymanfa!

Mae gennyf gopi o daflen Cymanfa 1990, a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener y Groglith, 13eg o Ebrill, yn nodi mai Rhisiart Arwel oedd yr Arweinydd, a bod tair oedfa o hyd i'w cynnal. 'Roedd Cefin Campbell yn Cadeirio cyfarfod y bore, gydag Eleri Knight a Sian Edwards yn darllen a gweddio. Yn y prynhawn, y Parchedig Ifor Rees yn Cadeirio, ac Aled Huws a Sian Lowri Griffiths yn darllen a gweddio. Ac erbyn oedfa'r hwyr y Parchedig T J Davies oedd yn y Gadair, a Rhian Edwards ac Ywain Derfel ap Rhys yn arwain y rhannau agoriadol.

Ni pharatowyd Detholiad penodol ar gyfer y Gymanfa yma – yn hytrach penderfynwyd dilyn trefn "Rhaglen Cymanfaoedd Canu 1989 – 90 a gyhoeddwyd ar ran Pwyllgor y *Caniedydd*, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gan Tŷ John Penry, Abertawe.


59 GWAELOD-Y-GARTH

Deh F. Unsain. CHRISTOPHER POWELL

Cytgan. S.A.T.B.

Ceisiwn o'r newydd lawenydd ei foes A chredwn addewid ei groes.

Profwn mewn gwendid gaderaid ei Air A'n henaid a gedwir gan Wir Faban Mair.

59.

Pob dawn a daioni, haelioni a hedd,
Pob rhinwedd a rhyddid a'r hywyd di-fedd,
Pob gras a diddanwch, pob beddwch di-bla,
Mae doniau yr Ysbryd i gyd yndda Fe.

Cytgan:
Ceisiwn o'r newydd lawenydd ei foes
A chredwn addewid ei Groes.
Profwn mewn gwendid gaderaid y Gair
A'n henaid a gedwir gan Wir Faban Mair.

Beth bynnag fo'n ennes o'r ginnest a'r gwir,
Od oes dim maddeuant di-fluant a phur;
Pob beth carnaladwy cofiadwy a phrin,
Myfyriwn yn gyson a phurion ar hyn.
Cytgan.

Ifor Rees

Mae'r rhestr o'r tonau a ddewiswyd i'w canu wedi eu nodi ar y daflen, ac yn eu mysg y mae tôn o'r enw "Gwaelod-y-garth" o waith Christopher Powell, gyda geiriau'r emyn unwaith yn rhagor gan Ifor Rees.

Mae dwy taflen arall yn fy meddiant yn nodi bod:-

i) "Cymanfa Fodern Ysgol Sul Bethlehem" wedi ei chynnal ar y 6ed o Fawrth 1994, heb enwi'r Arweinydd arni, gyda geiriau deg o emynau i'w canu arni;

ii) "Cymanfa Ganu'r Plant" wedi ei chynnal ym Methlehem ar Sul y 5ed o Fawrth 1995, gydag eto eiriau deg o emynau wedi eu cynnwys arni. Arwydd clir felly bod dydd Gwener y Groglith wedi ei roi o'r neilltu a'i newid am Sul Gwyl Dewi Sant!

Ac wrth gwrs y cofnod diweddaraf yn fy meddiant sy'n croniclo Cymanfa Ganu ym Methlehem yw honno a fu'n rhan o'n dathliadau y llynedd i nodi 150 mlwydd oed y Capel presennol.

Fe gofiwch bod yr aelodau wedi cael siawns i ddewis eu hoff emynau, a bod 'na ddewis a dethol deg o'r rhai hynny i'w cynnwys yn y rhaglen. Eilir Owen Griffiths oedd yr Arweinydd yn yr oedfa a gynhaliwyd am 5:00 p.m. ar Sul, Mehefin yr 11eg, 2023.

Un o'r deg emyn oedd yr unig un o waith Ifor Rees sydd y *Caneuon Ffydd*, sef rhif 20, "Athro da, ar ddechrau'r dydd…"

Pam tybed fy mod wedi canolbwyntio ar y Gymanfa Ganu yn yr erthygl uchod? Wel, ydi'r canlynol yn ddigon o eglurhad?

Wedi'r "Arddangosfa Ddathlu" y llynedd, credais y byddai'n ddoeth trosglwyddo cymaint ag sydd yn bosibl o'r hyn a gasglwyd ar gyfer hynny, a'i ddigideiddio, a'i osod ar wefan y Capel (www.Bethlehem.cymru) fel rhan o'n harchif. Prin yw'r hyn sydd wedi ei gynnwys ar hyn o bryd, ond mae peth o'r deunydd perthnasol i'r Gymanfa Ganu ar fin cael ei gynnwys. 'Rwyf wedi gwneud copi sgan o wyneb ddalen y Rhaglenni sydd yn fy meddiant, ac wedi llunio dalen ychwanegol sy'n cofnodi'r tonau a'r emynau a ganwyd yn y gwahanol gymanfaoedd dros y blynyddoedd. 'Rwyf yn ogystal wedi tynnu sylw perthnasol at dôn neu emyn a gyfansoddwyd yn arbennig (gan rai oedd a pherthynas â Bethlehem) ar gyfer y Cymanfaoedd rheini. Fel y nodais uchod, mae Ifor Rees (1972, 1981, 1983, 1990) a Christopher Powell ("Bethlehem" 1982, "Trevor" 1985, a "Gwaelod-y-garth" 1990) yn ymddangos sawl gwaith, ond hefyd Peter Wynn Thomas ("Eirlys" 1987). Yn ogystal, mae Chris Powell, yn y Rhagair i Gymanfa 1988, yn rhestru nifer o gyfansoddwyr lleol eraill a gyfrannodd o'u doniau yn rheolaidd i'r Gymanfa.

Ond fel yr awgrymwyd uchod, mae llawer o'r deunydd o hyd ar ddisberod yn rhywle, a da o beth fyddai cael eich cymorth i ddod o hyd iddo.

Tybed felly a fyddech cystal a chwilota yng nghorneli tywyllaf eich cartrefi i weld a oes copïau yn dal llwch yn rhywle? ['Rwyf yn benodol yn chwilio am Raglenni rhwng 1971 – 1980; 1984; 1989; 1991 - 1993; ond hefyd os oes 'na rai o gyfnod cynharach gennych (heblaw am 1953; 1959; 1961 – 1964) yna buaswn yn falch o'u benthyg – fe'i cewch yn ôl wedi i mi wneud copi ohonynt!]

Mae rhan arall o'r ymchwilio hefyd ar waith gennyf, sef tyrchu trwy Gylchgronau a Phapurau Newyddion sydd wedi eu digideiddio (hyd at 1919), ac ar gael ar-lein ar wefan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i gasglu mwy o hanes y Gymanfa yn y cyfnod hwnnw.

Cewch fwy am hynny y tro nesaf!

PWY BIAU'R LLUNIAU?

Ifan Roberts

Mae nhw'n dweud, dydyn nhw, ei bod yn beth da i chi droi at eich Beibl mor aml ag y gallwch chi! Maen nhw'n dweud hefyd y cewch eich rhyfeddu sawl tro am ei gynnwys. Gwir a ddywedwyd – oherwydd dyna ddigwyddodd un bore Sul ym Methlehem, ar ôl cael cyfarwyddyd gan y cennad i gyd-ddarllen.

Mi gydiais i yn y Beibl clawr caled oedd eisoes yn y sedd ac fe agorodd hwnnw gan ddatgelu dau lun oedd yn cynnwys naw o ferched. Rhag ofn i chi amau mod i wedi agor copi o Feibl y Plant – dim o gwbl. Wynebau cyfarwydd oedd y rhain – a'r lluniau wedi eu tynnu ar ddau achlysur. Rwy'n mentro dweud hynny, gan nad ydyn nhw'n gwisgo'r un dillad yn y ddau lun, a digon prin eu bod wedi newid rhwng giatiau Bethlehem a chofgolofn ym Mryste.

Dyma'r ddau lun, gyda'r Beibl yn gefndir i'r ffrâm.

Fe welwch yn y llun mwyaf eglur o'r ddau, fod ynddo rai aelodau sydd wedi'n rhagflaenu a bod ambell steil a lliw gwallt hefyd wedi newid.

Holais Eirlys Davies, Radur, oedd yn eistedd yn y sedd o fy mlaen ac mae hi'n credu mai teithiau'r Cwrdd Merched oedd testun y ddau lun. Yn wir, dydy hi ddim yn gwbl sicr ai hi neu rywun arall biau'r lluniau! Os oes rhywun am eu hawlio, maen nhw yn ôl yn y Beibl clawr caled yn un o seddau'r ochr chwith! Neu yno wnes i eu rhoi i'w cadw!

A dyma un olwg fanylach ar y naw ger y gofgolofn – gan geisio gwneud y llun ychydig yn fwy eglur.

YR OEDFAON ARDAL

OEDFA AELODAU GOGLEDD CAERDYDD

Fel gwelwch o'r ddwy faner uwchben Wyn Jones, y rhyfel ym Mhalesteina oedd yn ganolog i'r myfyrdod.



SUL CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i Heulwen a'i chyd-athrawon am eu gwaith yn paratoi'r plant a'r ieuenctid ar gyfer yr oedfa











OEDFA AELODAU RADUR
(hoff emynau rhai o'r cyfranwyr oedd dan sylw'r Sul hwn)

Ac un "Gair Bach" cyn cloi

Mae'r lluniau yn y rhifynnau o'r "Gair Bach" yn gyfuniad o sawl ffynhonnell. Daw rhai o'r lluniau anfonwyd yn garedig aton ni gan gyd-aelodau yn ystod achlysuron lle roedd rhai'n cynnal gweithgaredd neu achlysur cymdeithasol. Daw lluniau eraill wedi eu cipio o'n darllediadau ar fideo, drwy garedigrwydd Wyn Jones, tra bo ambell lun o gamera'r golygydd, boed o'r galeri neu ar ffôn symudol o sedd agos i'r ffrynt.

Ond mae'n braf cael gair neu ddau i'w ddarllen hefyd, weithiau. Da chi, plîs. anfonwch air, byr neu faith, os cewch chi'r awydd, am unrhyw bwnc dan haul, fel deunydd i ddiddanu'ch cyd-aelodau. Mae pob cyfraniad yn werth ei rannu gyda phawb o'n cymuned. Hen atgofion neu sylwadau cyfoes – hyd yn oed rai nad ydych chi wedi eu hadrodd i'ch disgynyddion. Cofiwch y bydd rhain ar gof a chadw i'r genhedlaeth nesaf.

Felly, beth am i chi, ffyddloniaid Bethlehem, roi gair ar gyfrifiadur (neu bapur, I-pad neu ffôn symudol) ar gyfer ein rhifyn nesaf. Eich myfyrdodau dros yr Haf, unrhyw beth sy'n eich taro! Mae Prifwyl Rhondda Cynon Taf ar y trothwy. Hwn yw ein rhifyn cyn yr Eisteddfod – cwta 5 milltir o'r safle. Beth am i chi gofnodi sut brofiad fu'r cyfan i chi.

Hwyl am y tro! **Ifan**